**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau , Dydd Iau, 3 Medi 2020**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Cafodd y cysylltiadau canlynol eu datgan – roedd y cyfan yn gysylltiadau personol:<br><br>Y Cynghorydd Huw O Williams – mae ei fab yn ddisgybl yn un o ysgolion y sir<br>Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies – mae'n llywodraethwr yn Ysgol Cefn Meiriadog<br>Y Cynghorydd Cheryl Williams – mae hi'n llywodraethwr yn Ysgol Crist y Gair<br>Y Cynghorydd Tina Jones – llywodraethwr yn Ysgol Melyd<br>Y Cynghorydd Andrew Thomas – llywodraethwr yn un o ysgolion y sir<br>Y Cynghorydd Merfyn Parry - llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor<br>Y Cynghorydd Graham Timms – llywodraethwr yn un o ysgolion y sir<br>Y Cynghorydd Emrys Wynne – llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - rhiant-lywodraethwr yn un o ysgolion y sir |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw eitemau brys. |
| **4** | COFNODION | Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y cywiriadau uchod y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020 fel cofnod cywir a gwir.*** |
| **5** | CYNLLUN ADFER AR GYFER | Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | YSGOLION | pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod:***<br><br>***(i) cefnogi'r hyn oedd wedi digwydd hyd yn hyn i alluogi ysgolion i agor yn ddiogel ar gyfer pob disgybl ym mis Medi 2020, a chefnogi'r Cynlluniau Adfer ar gyfer Ysgolion ar ôl Covid sy'n esblygu; a***<br>***(ii) ac estyn diolch diffuant y Pwyllgor i holl staff yr adran Addysg a gwasanaethau eraill y Cyngor am eu holl waith caled ac ymdrechion yn ystod y cyfnod clo ac wrth gynllunio a hwyluso ailagor ysgolion y Sir*** |
| **6** | CYNLLUN ADFER AR GYFER ADEILADAU'R CYNGOR | Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod:***<br><br>***(i) i gefnogi'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i baratoi adeiladau'r Cyngor i ailagor, digomisiynu unrhyw ddefnyddiau dros dro, a hwyluso a delio â gwaith cynnal a chadw sydd wedi bod yn pentyrru;***<br>***(ii) estyn diolch diffuant y Cyngor i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymdrechion yn sicrhau diogelwch adeiladau'r Cyngor yn ystod y pandemig a pharatoi i ailagor yn ddiogel; a***<br>***(iii)gofyn am adroddiad dilynol gerbron y Pwyllgor mewn chwe mis ar y*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***cynnydd a wnaed o ran adfer ar gyfer adeiladau'r Cyngor ar ôl Covid-19*** |
| **7** | CYNLLUN ADFER AR GYFER PRIFFYRDD A'R PARTH CYHOEDDUS | Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod:***<br><br>***(i) cefnogi'r cynllun adfer, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad;***<br>***(ii) estyn diolch diffuant y Pwyllgor i holl staff Priffyrdd a Pharth Cyhoeddus am eu holl waith caled ac ymdrechion yn cyflwyno gwasanaethau hyd orau eu gallu yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clod, ac am eu gwaith yn paratoi a chynllunio adferiad y Gwasanaethau o ymateb i'r pandemig i ddarparu busnes o ddydd i ddydd ac amcanion adferiad y Gwasanaeth; a***<br>***(iii)gofyn bod y Gweithdy Aelodau ar God Ymarfer Priffyrdd a materion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth y bu'n rhaid ei ganslo oherwydd y pandemig yn cael ei ail-drefnu ac yn cael ei gynnal trwy gyfrwng fideo gynhadledd cyn gynted â phosibl*** |
| **8** | RHAGLEN WAITH ARCHWILIO | Roedd yna gonsensws i gytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Dywedodd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni ddywedodd unrhyw un eu bod yn ei erbyn ac ni ddywedodd unrhyw un eu bod eisiau atal eu pleidlais.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - Cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor yn amodol ar yr*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***argymhellion a wnaed yn ystod trafodaethau ar faterion agenda cynharach a chynnwys yr eitemau a awgrymwyd yn ystod y drafodaeth uchod.*** |